OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 No. 1806

Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

RHAN 6

SYMUD GWASTRAFF PERYGLUS

Codau traddodi

Safon codio

33.—(1) Dyletswydd yr Asiantaeth o dro i dro yw dynodi safon, ac ar bob adeg gynnal mewn grym ddynodiad ar safon, (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "safon codio"), sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad codau traddodi at ddibenion y Rhan hon.

(2) Rhaid i'r safon codio alluogi pob llwyth o wastraff peryglus gael cod traddodi unigryw.

(3) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau gwahanol i nodiadau traddodi a gwblhawyd mewn perthynas â gwastraff peryglus a symudwyd drwy biblinell yn unol â rheoliad 41, pan fo pibellau yn para am fwy na chwarter.

(4) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau traddodi gael eu ffurfio o lythrennau, Rhif au neu symbolau, neu unrhyw gyfuniad o lythrennau, Rhif au a symbolau.

Codau traddodi

34.—(1) Dyletswydd—

(a) y cynhyrchydd, o ran—

(i) llwyth o wastraff peryglus sydd i'w symud o fangre (heblaw llong) lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu;

(ii) gwastraff peryglus sydd i'w symud drwy biblinell o fangre (heblaw llong) mewn achos y mae rheoliad 41 yn gymwys iddo; neu

(iii) gwastraff peryglus sydd i'w ddyddodi o fewn cwrtil y fangre lle'i cynhyrchwyd;

(b) meistr y llong, o ran unrhyw wastraff peryglus sy'n cael ei symud o long yn ardal harbwr (gan gynnwys gwastraff a ollyngwyd drwy ddamwain ar dir sy'n gyfagos â'r llong); ac

(c) y traddodwr, o ran unrhyw lwyth arall o wastraff peryglus,

yw rhoi i'r gwastraff peryglus god unigryw yn unol â'r safon codio sydd mewn grym ar y pryd.

(2) Y cod a roddir yn unol â pharagraff (1) fydd y cod traddodi gwastraff peryglus o dan sylw at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Y dogfennau sydd i'w cwblhau ar gyfer llwythi

Cwblhau nodiadau traddodi

35.—(1) Pan symudir gwastraff peryglus o unrhyw fangre—

(a) rhaid cwblhau nodyn traddodi yn unol â pharagraff (3) o'r rheoliad hwn a gofynion y rheoliad perthnasol os yw un o'r rheoliadau canlynol yn gymwys—

(i) rheoliad 36 (y weithdrefn safonol);

(ii) rheoliad 39 (symud gwastraff llong i gyfleusterau derbyn);

(iii) rheoliad 40 (symud gwastraff llong heblaw i gyfleusterau derbyn);

(iv) rheoliad 41 (symud gwastraff drwy biblinell); neu

(v) pan wrthodir y llwyth neu unrhyw ran ohono gan y traddodai, ym mhob achos yn unol â rheoliad 42 a 43;

(b) os bydd rheoliad 37 (Atodlen y cludwyr) yn gymwys, rhaid cwblhau atodlen y cludwyr yn unol â'r rheoliad hwnnw a pharagraff (3) o'r rheoliad hwn; ac

(c) os bydd rheoliad 38 (amlgasgliad) neu reoliad 44 (gweithdrefn amlgasglu ar gyfer llwythi a wrthodwyd) yn gymwys, rhaid cwblhau nodyn traddodi amlgasgliad yn unol â'r rheoliad cymwysadwy hwnnw a pharagraff (4) o'r rheoliad hwn.

(2) Mae ffurf y nodyn traddodi a geir yn Atodlen 4, neu ffurf sydd yn gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(3) Mae ffurf atodlen y cludwyr a geir yn Atodlen 5, neu ffurf sydd yn gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(4) Mae ffurf y nodyn traddodi amlgasgliad a geir yn Atodlen 6, neu ffurf sy'n gofyn am yr un wybodaeth yn yr un fformat ar y cyfan, i gael ei defnyddio a rhaid ei chwblhau fel y bydd yn cynnwys (lle dangosir yn y ffurf) yr holl wybodaeth y darparwyd ar ei chyfer yn yr Atodlen honno sy'n gymwys i'r achos.

(5) Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at ran o nodyn traddodi, atodlen y cludwyr neu nodyn traddodi amlgasgliad wrth ei Rhif neu ddisgrifiad yn gyfeiriad at y rhan honno fel y mae'n ofynnol iddi gael ei Rhif o neu ei disgrifio yn ôl y digwydd yn y ffurf yn Atodlen 4, 5 neu 6 yn ôl y gofyn.

Y weithdrefn safonol

36.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob achos lle mae llwyth o wastraff peryglus i'w symud o fangre ac eithrio mewn achosion y mae unrhyw rai o reoliadau 38 i 41 yn gymwys iddynt.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i gynhyrchydd, neu ddeiliad, y gwastraff peryglus yn ôl y digwydd—

(i) paratoi copi o'r nodyn traddodi ar gyfer pob un o'r canlynol: cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus (os yw'n wahanol i'r traddodwr); y traddodwr; y cludwr; a'r traddodai;

(ii) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi; a

(iii) rhoi pob copi i'r cludwr;

(b) rhaid i'r cludwr gwblhau Rhan C ar bob copi a rhoi pob copi i'r traddodwr;

(c) rhaid i'r traddodwr—

(i) cwblhau Rhan D ar bob copi;

(ii) os nad y cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yw'r traddodwr, rhoi un copi iddo;

(iii) cadw un copi; a

(iv) rhoi pob copi sy'n weddill i'r cludwr.

(3) Rhaid i'r cludwr sicrhau bod pob copi a dderbyniodd—

(a) yn teithio gyda'r llwyth; a

(b) yn cael ei roi i'r traddodai pan draddodir y llwyth.

(4) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn y llwyth, rhaid i'r traddodai—

(a) cwblhau Rhan E ar y ddau gopi; a

(b) rhoi un copi i'r cludwr.

Atodlen y cludwyr

37.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys ym mhob achos (p'un ai o dan reoliad 36, neu reoliad 40) os oes mwy nag un cludwr yn cludo'r llwyth, neu i gludo'r llwyth.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i'r traddodwr—

(i) paratoi copi o atodlen y cludwyr i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus (os yw'n wahanol i'r traddodwr), y traddodwr, pob cludwr a'r traddodai; a

(ii) rhoi pob copi i'r cludwr cyntaf;

(b) rhaid i'r cludwr cyntaf sicrhau bod pob copi y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth;

(c) wrth draddodi llwyth i bob cludwr dilynol—

(i) rhaid i'r cludwr blaenorol roi i'r cludwr dilynol bob copi o'r atodlen y mae wedi'i gael;

(ii) rhaid i'r cludwr dilynol gwblhau'r dystysgrif berthnasol ar bob copi, rhoi un i'r cludwr blaenorol a rhaid iddo gadw'r copi, a sicrhau bod pob copi sy'n weddill ac y mae wedi'i dderbyn yn teithio gyda'r llwyth; a

(iii) pan draddodir llwyth i draddodai, rhaid i'r cludwr gadw un copi o atodlen y cludwyr a rhoi pob copi sy'n weddill i'r traddodai.

(3) Pan fo—

(a) trefniadau ar gyfer cludo'r llwyth heb eu gwneud gyda'r holl gludwyr y bwriedir iddynt fod yn ymwneud ag ef cyn cychwyn cludo; neu

(b) bod newid mewn unrhyw drefniadau o'r fath am unrhyw reswm ar ôl i'r cludo ddechrau,

mae paragraff (2) yn gymwys fel pe bai'r cludwr mewn meddiant o'r llwyth pan wneir trefniadau pellach, yn achos paragraff (a), neu'n effeithiol, yn achos paragraff (b), yn draddodwr a phe bai'r cludwr nesaf yn gludwr cyntaf.

(4) Pan fydd y rheoliad hwn yn gymwys, heblaw mewn achos o lwyth o wastraff peryglus a wrthodwyd, mae rheoliad 36 yn effeithiol fel pe bai—

(a) cyfeiriad at wastraff peryglus yn cael ei symud yn cynnwys cyfeiriad at ei feddiant yn cael ei drosglwyddo i'r cludwr nesaf;

(b) ym mharagraff (2)(a)(i), y cyfeiriad at “y cludwr” yn gyfeiriad at “bob cludwr”;

(c) ym mharagraff (2)(a)(iii), 2(b) a (2)(c)(iv), y cyfeiriad at “y cludwr” yn gyfeiriad at “y cludwr cyntaf”;

(ch) ym mharagraff (3)(b) mewn perthynas â chludwr nad yw'n gludwr olaf, y cyfeiriad at "y traddodai" yn gyfeiriad at "y cludwr dilynol";

(d) ym mharagraff (4)(b), y cyfeiriad at "y cludwr" yn gyfeiriad at "y cludwr olaf".

Amlgasgliadau

38.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i daith a wneir gan gludwr unigol sy'n bodloni'r amodau canlynol—

(a) bod y cludwr yn casglu mwy nag un llwyth o wastraff peryglus yn ystod y daith;

(b) bod pob llwyth yn cael ei gasglu o fangre wahanol (nad yw unrhyw un ohonynt yn llong);

(c) bod pob mangre y cesglir ohoni yng Nghymru; ac

(ch) bod pob llwyth a gesglir yn cael ei gludo gan y cludwr hwnnw yn ystod y daith at yr un traddodai,

a chyfeirir at daith sy'n bodloni'r amodau hyn yn y Rheoliadau hyn fel "amlgasgliad".

(2) Os yw'r cludwr yn dewis cymhwyso'r weithdrefn amlgasgliad a nodir yn y rheoliad hwn i amlgasgliad, mae gofynion y rheoliad hwn yn gymwys i'r cludwr, ac i'r cynhyrchwyr, deiliaid a thraddodwyr y llwythi a gesglir yn ystod y cylch casglu.

(3) Cyn y casgliad cyntaf, rhaid i'r cludwr—

(a) paratoi dau gopi o'r nodyn casglu amlgasgliadau, a chopi pellach ar gyfer pob cynhyrchydd neu ddeiliad gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, y cesglir y gwastraff oddi wrtho yn ystod y cylch, ac un copi i bob traddodwr, mewn achosion pan nad cynhyrchydd, neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yw'r traddodwr;

(b) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi.

(4) Cyn symud gwastraff o bob set o fangreoedd lle gwneir casgliad—

(a) rhaid i'r cynhyrchydd, neu'r deiliad, gwblhau'r atodlen i'r nodyn traddodi ar gyfer amlgasgliadau ar bob copi;

(b) rhaid i'r traddodwr a'r cludwr lofnodi eu priod ddatganiadau yn yr atodiad i'r nodyn traddodi ar gyfer amlgasgliadau ar bob copi o'r nodyn; ac

(c) rhaid i'r cludwr drosglwyddo copi sydd wedi'i gwblhau i'r cynhyrchydd neu'r deiliad ym mhob achos (ac os nad y cynhyrchydd na'r deiliad yw'r traddodwr, i'r traddodwr).

(5) Ar ôl casglu'r llwyth olaf ond cyn ei gyflwyno i'r traddodai, rhaid i'r cludwr gwblhau'r manylion sydd i'w cwblhau gan y cludwr yn adran C ar y ddau gopi sy'n weddill o'r nodyn traddodi.

(6) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, pan fydd y gwastraff wedi'i draddodi—

(a) rhaid i'r cludwr drosglwyddo i'r traddodai y ddau gopi sy'n weddill o'r nodyn;

(b) rhaid i'r traddodai gwblhau'r manylion sydd i'w cwblhau gan y traddodai yn Adran C a chwblhau'r dystysgrif yn rhan D o'r nodyn ar y ddau gopi; ac

(c) rhaid i'r traddodai ddychwelyd un copi o'r nodyn sydd wedi'i gwblhau i'r cludwr.

Symud gwastraffoedd llongau i gyfleusterau derbyn

39.—(1) Mae'r Rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o long (gan gynnwys gormodedd neu ollyngiadau drwy lwytho neu ddadlwytho, a gafodd eu gollwng yn ddamweiniol ar dir yn gyfagos â'r llong) mewn ardal harbwr—

(a) i gyfleusterau derbyn a ddarperir yn yr ardal harbwr honno; neu

(b) drwy biblinell i unrhyw gyfleusterau o'r fath a ddarperir y tu allan i ardal harbwr.

(2) Cyn bod y gwastraff yn cael ei symud o'r llong rhaid i feistr y llong—

(a) paratoi dau gopi o'r nodyn traddodi;

(b) cwblhau Rhannau A, B a D ar bob copi;

(c) cadw un copi; ac

(ch) rhoi un copi i weithredydd y cyfleusterau.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn llwyth o wastraff peryglus rhaid i weithredydd y cyfleusterau gwblhau Rhan E ar y copi a dderbyniodd.

Symud gwastraffoedd llongau heblaw i gyfleusterau derbyn

40.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o long mewn ardal harbwr heblaw mewn achos y mae rheoliad 39 yn gymwys iddi.

(2) Cyn symud y llwyth—

(a) rhaid i feistr y llong—

(i) paratoi tri chopi o'r nodyn traddodi;

(ii) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi; a

(iii) rhoi pob copi i'r cludwr;

(b) rhaid i'r cludwr gwblhau Rhan C ar bob copi;

(c) rhaid i feistr y llong—

(i) cwblhau Rhan D ar bob copi;

(ii) cadw un copi; a

(iii) rhoi pob copi sy'n weddill i'r cludwr;

(ch) rhaid i'r cludwr sicrhau bod pob copi a dderbyniodd—

(i) yn mynd gyda'r llwyth; a

(ii) yn cael ei roi i'r traddodai pan draddodir y llwyth.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 42, wrth dderbyn y llwyth, rhaid i'r traddodai—

(a) cwblhau Rhan E ar y ddau gopi; a

(b) rhoi un copi i'r cludwr.

Symud gwastraff drwy biblinell

41.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os symudir gwastraff peryglus o unrhyw fangre (heblaw llong), lle caiff ei gynhyrchu neu ei storio, drwy biblinell.

(2) Cyn rhoi'r gwastraff mewn piblinell, ac, os yw'r piblinellu'n barhaus, ar ddechrau pob chwarter rhaid i'r cynhyrchydd, neu'r deiliad, yn ôl y digwydd—

(a) paratoi un copi o'r nodyn traddodi ar gyfer pob un o'r canlynol: y cynhyrchydd neu'r deiliad, yn ôl y digwydd (os yw'n wahanol i'r traddodwr), y traddodwr a'r traddodai;

(b) cwblhau Rhannau A, B a D ar bob copi, gyda'r ddarpariaeth bod yn rhaid cofnodi cyfradd y llif cyfartalog yn Rhan B3, ynghyd ag amcangyfrif o gyfanswm cyfaint y gwastraff sydd i'w biblinellu fesul wythnos neu fis calendr.

(3) Rhaid i'r traddodai gwblhau Rhan E ar bob copi gyda'r addasiadau canlynol—

(a) yn Rhan E1, bernir bod y cyfeiriad at y dyddiad pan dderbyniwyd y gwastraff yn gyfeiriad at y dyddiad diwethaf pan dderbyniwyd y gwastraff gan y traddodai yn unol â'r nodyn traddodi hwnnw; a

(b) yn Rhan E2, nid oes angen manylion cofrestru'r cerbyd.

(4) Rhaid i'r traddodai gadw un copi a sicrhau bod copi yn cael ei roi i'r traddodwr, ac i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, os yw'n wahanol i'r traddodwr.

Llwythi a wrthodwyd

Dyletswydd traddodai nad yw'n derbyn y llwyth

42.—(1) Mae'r rheoliad hwn a rheoliadau 43 a 44 yn gymwys pan nad yw'r traddodai yn derbyn traddodi llwyth o wastraff peryglus, p'un ai yn gyfan neu'n rhannol.

(2) Nid yw gofynion rheoliad 36(4), 38(6)(b) ac (c), 39(3), neu 40(3) (sy'n ymwneud â dyletswyddau'r traddodai wrth dderbyn y llwyth) yn ôl y digwydd, yn gymwys i draddodai mewn perthynas â llwyth, neu ran ohono, a wrthodwyd.

(3) Os rhoddwyd copïau o'r nodyn traddodi ynglyn â llwyth a wrthodwyd i'r traddodai, rhaid iddo—

(a) dangos ar Ran E o bob copi y mae'n ei gael nad yw'n derbyn y llwyth, neu ran o'r llwyth yn ôl y digwydd, a'r rhesymau pam nad yw'n derbyn y llwyth neu ran o'r llwyth;

(b) cadw un copi;

(c) rhoi un copi i'r cludwr; a

(ch) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfon copi at y traddodwr, ac (os yw'n wahanol i'r traddodwr) y cynhyrchydd neu'r deiliad, os yw'n hysbys.

(4) Os na roddwyd copïau o'r nodyn traddodi i'r traddodai rhaid iddo—

(a) paratoi esboniad ysgrifenedig o'i resymau dros beidio â derbyn y traddodi, gan gynnwys y manylion sy'n hysbys iddo am y llwyth, cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, y traddodwr a'r cludwr;

(b) rhoi'r cyfryw esboniad ysgrifenedig i'r cludwr;

(c) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, anfon un copi at y traddodwr, ac (os yw'n wahanol i'r traddodwr) y cynhyrchydd neu'r deiliad, os yw'n hysbys; ac

(ch) cadw copi o'i esboniad ysgrifenedig.

(5) Wrth gael ei hysbysu nad yw'r traddodai yn derbyn traddodi'r llwyth neu ran o'r llwyth, rhaid i'r cludwr—

(a) hysbysu'r Asiantaeth;

(b) gofyn am gyfarwyddiadau gan gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus; ac

(c) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y cyfarwyddiadau hynny yn cael eu cyflawni (gan gynnwys cwblhau unrhyw nodyn traddodi ar eu rhan).

(6) Mae'n ddyletswydd ar gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, a enwir yn y rhan berthnasol o'r nodyn traddodi—

(a) i wneud trefniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol i drosglwyddo'r llwyth neu'r rhan o'r llwyth a wrthodwyd i draddodai penodedig arall sy'n dal trwydded gwastraff neu sydd wedi'i gofrestru i gyflawni gweithgaredd esempt ar gyfer adfer neu waredu'r gwastraff; a

(b) i roi, ar unwaith—

(i) cyfarwyddiadau i'r cludwr yn unol â hynny; a

(ii) hysbysiad i'r Asiantaeth o'r trefniadau a'r cyfarwyddiadau.

(7) Mewn unrhyw achos o fewn paragraff (6)(a), os na ellir dod o hyd i unrhyw draddodai amgen o fewn 5 niwrnod busnes, rhaid i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus a enwir yn y rhan

berthnasol o'r nodyn traddodi wneud trefniadau i ddychwelyd y gwastraff i'r fangre y cafodd ei symud ohoni i'w storio yn unol ag amodau'r Gyfarwyddeb Wastraff hyd nes y deuir o hyd i draddodai addas.

Nodyn traddodi pellach ar gyfer llwyth a wrthodwyd

43.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i symud unrhyw lwyth ar ôl iddo gael ei wrthod gan y traddodai ac eithrio mewn achos y mae rheoliad 44 yn gymwys iddo.

(2) Cyn symud y llwyth neu ran o'r llwyth o'r lle traddodi gwreiddiol, rhaid i gynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus a enwir yn y rhan berthnasol o'r nodyn traddodi gwreiddiol sicrhau bod copi o nodyn traddodi newydd wedi'i baratoi mewn perthynas â'r llwyth neu'r rhanlwyth a wrthodwyd i bob un o'r canlynol:

(a) cynhyrchydd y gwastraff peryglus;

(b) os nad cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus yw'r traddodwr, y traddodwr;

(c) y cludwr; ac

(ch) y traddodai newydd.

(3) Rhaid i'r cynhyrchydd neu'r deiliad —

(a) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi o'r nodyn fel a ganlyn—

(i) dylid copïo'r wybodaeth y mae ei hangen i gwblhau Rhan A o'r nodyn traddodi gwreiddiol gan gynnwys y cod traddodi perthnasol a rhaid ychwanegu'r llythyren 'R' at ddiwedd y cod;

(ii) rhaid rhoi enw a chyfeiriad y traddodai newydd (gan gynnwys y cod post) yn Rhan A4; a

(iii) yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid copïo'r wybodaeth berthnasol a geir yn Rhan B o'r nodyn traddodi gwreiddiol (os gwrthodir rhan o'r llwyth, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r rhan honno) i Ran B; a

(b) rhoi pob copi i'r cludwr.

(4) Os yw'r traddodai a wrthododd y llwyth neu ran o'r llwyth yn datgan yn ei esboniad ysgrifenedig bod y disgrifiad o'r gwastraff yn y nodyn traddodi gwreiddiol yn anghywir, rhaid i'r cynhyrchydd neu'r deiliad gynnwys yn lle hynny ddisgrifiad cywir o'r gwastraff yn y nodyn traddodi newydd.

(5) Rhaid i'r cludwr gwblhau Rhan C ar bob copi.

(6) Rhaid i'r cynhyrchydd neu'r deiliad a enwir yn y rhan berthnasol o'r nodyn traddodi gwreiddiol—

(a) cwblhau Rhan D ar bob copi;

(b) os nad y cynhyrchydd neu'r deiliad yw'r traddodwr, rhoi un copi i'r cynhyrchydd neu'r deiliad yn ôl y digwydd; ac

(c) rhoi pob copi sy'n weddill i'r cludwr.

(7) Rhaid i'r cludwr sicrhau bod pob copi o'r nodyn traddodi newydd a dderbyniodd—

(a) yn teithio gyda'r llwyth neu'r rhanlwyth;

(b) yn cael ei roi i'r traddodai newydd pan draddodir y llwyth neu'r rhanlwyth.

(8) Rhaid i'r traddodai newydd—

(a) cwblhau Rhan E ar y ddau gopi o'r nodyn traddodi newydd; a

(b) rhoi un copi i'r cludwr.

(9) Os oes mwy nag un cludwr i fod—

(a) ym mharagraffau (3)(b), (5) a (6)(c), mae cyfeiriadau at y cludwr i'w trin fel cyfeiriadau at y cludwr cyntaf;

(b) ym mharagraffau (2)(c) a (7) mae cyfeiriadau at y cludwr i'w trin fel cyfeiriadau at bob cludwr;

(c) ym mharagraff (7)(b), o ran cludwr nad yw'n gludwr olaf, mae'r cyfeiriad at "y traddodai newydd" i'w drin fel cyfeiriad at "y cludwr dilynol"; ac

(ch) ym mharagraff (8)(b) mae'r cyfeiriad at y cludwr i'w drin fel cyfeiriad at y cludwr olaf.

Y weithdrefn ar gyfer llwythi amlgasgliad a wrthodwyd

44.—(1) Pan fo dau lwyth neu fwy sy'n ffurfio rhan o amlgasgliad yn cael eu gwrthod a'u bod i gael eu traddodi i'r un traddodai, os yw'r cludwr yn dewis cymhwyso'r weithdrefn amlgasglu a nodir yn rheoliad 38 i draddodi o'r fath, mae'r gofynion canlynol yn gymwys—

(a) rhaid i'r cludwr—

(i) paratoi dau gopi o'r nodyn traddodi amlgasgliad, ynghyd ag un copi ar gyfer pob cynhyrchydd neu ddeiliad gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, y mae ei lwyth wedi'i wrthod, ac un copi ar gyfer pob traddodwr, mewn achosion lle nad y traddodwr yw'r cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd; a

(ii) cwblhau Rhannau A a B ar bob copi;

(b) cyn symud y gwastraff o'r fangre lle cafodd ei draddodi'n wreiddiol—

(i) rhaid i'r cynhyrchydd, neu'r deiliad, gwblhau'r atodiad i'r nodyn traddodi amlgasgliad ar bob copi a baratowyd gan y cludwr;

(ii) rhaid i'r traddodwr a'r cludwr lofnodi eu priod ddatganiadau i'r atodiad i'r nodyn traddodi amlgasgliad ar bob copi a baratowyd gan y cludwr;

(iii) rhaid i'r cludwr drosglwyddo copi sydd wedi'i gwblhau i'r cynhyrchydd neu'r deiliad ym mhob achos (ac os nad y cynhyrchydd yw'r traddodwr, i'r traddodwr).

(c) wrth draddodi'r gwastraff i'r traddodai newydd—

(i) rhaid i'r cludwr gwblhau'r manylion sydd i'w cwblhau gan y cludwr yn adran C ar bob copi o'r nodyn traddodi;

(ii) rhaid i'r cludwr drosglwyddo i'r traddodai bob copi o'r nodyn;

(iii) rhaid i'r traddodai gwblhau'r manylion sydd i'w cablhau gan y traddodai yn Adran C a chwblhau'r dystysgrif yn Rhan D o'r nodyn ar bob copi o'r nodyn; a

(iv) rhaid i'r traddodai ddychwelyd un copi o'r nodyn a gwblhawyd i'r cludwr.

Dyletswydd i draddodi o fewn terfyn amser

Dyletswydd i draddodi llwyth yn brydlon

45. Dyletswydd y cludwr yw traddodi'r llwyth i'r traddodai yn brydlon a heb oedi'n ormodol.

Symudiadau trawsffiniol

Symud trawsffiniol o wastraff peryglus

46. Mae Atodlen 7 yn effeithiol mewn cysylltiad ag adnabod cilyddol ar nodiadau traddodi a symud trawsffiniol o wastraff peryglus rhwng Cymru a Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gibraltar.